OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 2705

# Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

## RHAN 7

Y gofynion ar gyfer deilliadau epocsi penodol

**Cyfyngiadau ar ddefnyddio deilliadau epocsi penodol (BADGE, BFDGE a NOGE)**

**16.**—(1) Yn y Rhan hon—

(a) mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodiad â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl honno neu'r Atodiad hwnnw yn Rheoliad 1895/2005; a

(b) mae paragraffau (2) a (3) yn ddarostyngedig i Erthygl 1(3) (cwmpas)(**1**).

(2) Yn ddarostyngedig i Erthygl 6(1), (2) a (4) (darpariaethau trosiannol)(**2**), ni chaiff unrhyw berson roi ar y farchnad na defnyddio, wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd—

(a) unrhyw ddeunydd neu eitem yn groes i Erthygl 3 (gwahardd defnyddio BFDGE neu ei bresenoldeb) neu Erthygl 4 (gwahardd defnyddio NOGE neu ei bresenoldeb); neu

(b) unrhyw ddeunydd neu eitem nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd yn Erthygl 2 (BADGE) fel y'i darllenir gydag Atodiad I (y terfyn ymfudo penodol ar gyfer BADGE a rhai o'i ddeilliadau).

(3) Yn ddarostyngedig i Erthygl 6(3)(**3**), ni chaiff unrhyw berson roi ar y farchnad unrhyw ddeunydd nac eitem nad yw'n cydymffurfio â gofynion Erthygl 5 (datganiad ysgrifenedig)(**4**).

(4) Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i baragraff (2) neu (3) yn euog o drosedd.

**Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 1895/2005**

**17.** Yr awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 6(4) yw pob awdurdod bwyd yn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd yn ei ranbarth.

(**1**) Mae Erthygl 3 yn cynnwys eithriad sy'n ymwneud â rhai cynwysyddion a thanciau storio a phiblinellau sy'n perthyn iddynt.

(**2**) Mae Erthygl 6(1) a (2) yn darparu ar gyfer y trefniadau trosiannol ar gyfer cymhwyso Erthyglau 2, 3 a 4 i ddeunyddiau ac eitemau penodedig; mae Erthygl 6(4) yn caniatáu marchnata deunyddiau ac erthyglau penodedig os caiff gofynion penodol o ran labelu eu bodloni.

(**3**) Mae Erthygl 6(3) yn darparu ar gyfer y ddarpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â chymhwyso Erthygl 5 i ddeunyddiau ac eitemau penodedig y daethpwyd â hwy i gysylltiad â bwyd cyn 1 Ionawr 2007.

(**4**) Mae Erthygl 5 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddeunydd ysgrifenedig penodedig fynd gyda deunyddiau ac eitemau sy'n cynnwys BADGE a'i ddeilliadau pan fyddant yn cael eu marchnata yn y cyfnodau cyn manwerthu.